# Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru
# Cofnodion yr Is-Bwyllgor DTRh
# 23 Chwefror 2005

| **Yn bresennol** | **Camau gweithredu** |
|---|---|
| M Hooker, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>S Bool, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>N Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot<br>C A Williams, Cyngor Sir Benfro ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol<br>R Amundson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>A Bull, Cyngor Sir Powys<br>T Gilman, BAA<br>M Frampton, QPA<br>M Lucas, Cyngor Bro Morgannwg<br>S Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>C Morgan, Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| **1. Ymddiheuriadau** | |
| A Wilkes, Asiantaeth yr Amgylchedd | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 9 Rhagfyr 2004** | |
| Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir. | |
| **3. Materion yn codi** | |
| Dim. | |
| **4. IMAECA** | |
| Cydnabuwyd cyfyngiadau'r teclyn GIS gan ei fod ond yn arwain y broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd yn annog trafodaeth fywiog am feysydd o allu amgylcheddol uchel/isel. Darperir y teclyn ar gyfer ysgrifenyddion gweithgorau agregau rhanbarthol a LICC yn unig gan fydd defnydd cyfyng fel hyn yn atal camddefnydd. | |
| Cefnogodd TG farn LICC bod angen adnabod y system fel teclyn un unig ac nid fel sail ar gyfer apeliadau. | |
| Ystyriodd MH fod gofyn sefydlu protocol i atal camddefnydd. LICC i edrych ar hyn a chylchredeg gwybodaeth. | **SM / CM** |
| Mynegwyd pryderon y gallai rhai grwpiau penodol gamddeall yr ardaloedd a liwiwyd a datganwyd bod angen ymwadiad neu esboniad. | **SM / CM** |

| | |
|---|---|
| Nodwyd y byddai'r system ar gael i'w harchwilio ar sail darllen yn unig ar gyfer awdurdodau cynllunio mwynau (ACM). Byddai paramedrau sylfaenol yn cael eu gosod a dim ond LlCC fyddai'n gallu eu newid.<br><br>**5. <u>Fforwm Aelodau Cyntaf</u>**<br>**(Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru)** | |
| Trefnwyd cyfarfod cyntaf y fforwm hwn ar gyfer diwedd mis Mawrth / dechrau mis Ebrill. Bydd angen llunio amodau gorchwyl mewn memorandwm o ddealltwriaeth i'w lofnodi gan bob ACM sy'n aelod.<br><br>Derbyniwyd y dylai amodau gweithgor Gogledd Cymru a De Cymru fod yr un peth.<br><br>**6. <u>Rhaglen DTRh</u>**<br><br>Nodwyd y byddai cwblhau adroddiad IMAECA Enviros yn cychwyn amserlen y DTRh. Mae adroddiad Smiths Gore ar wastraff adeiladu, dymchwel a chwareli'n debygol o ddarparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer proses y DTRh. | **SB** |
| Trafodwyd hyfforddiant ar gyfer aelodau a chytunwyd bod angen hyn. Awgrymwyd ymweld ag offer carthu a/neu chwarel. Bydd dichonoldeb ymweliad safle addas yn cael ei archwilio ond os na fydd hyn yn bosibl gellid gwylio offer carthu ar fideo. Cytunwyd y dylai unrhyw gyfarfodydd y fforwm aelodau gynnwys elfen o hyfforddiant yn y dyfodol.<br><br>Amlinellwyd cyfnodau allweddol proses y DTRh a threfnwyd cyfarfod nesaf y fforwm aelodau ar gyfer mis Medi 2005. | **SB** |
| O ran asesiadau amgylcheddol strategol (SEA) ac asesiadau effaith ar iechyd (HIA), cydnabuwyd bod gofyn i'r DTRh fod yn gadarn ac agored ac felly bod angen sylw arbennig ar yr elfennau hyn. Trafodwyd a ellid cyflawni'r elfennau hyn yn fewnol a dan y contract a chytunwyd y byddai SB a'r is-grŵp yn ymchwilio ymhellach i hyn. Cynigiwyd y gellid gwneud yr HIA yn fewnol heb ymgynghorwyr. | **SB / Is-grŵp DTRh** |
| Cyfeiriwyd at y fantais o gael papur materion i osod allan yr egwyddorion o restrau ffynonellau cyflenwadau/cronfeydd/cwsg/eraill. SB i wneud hyn o fewn 3 mis. | **SB** |
| I sicrhau archwiliad cyhoeddus hawdd, cytunwyd y byddai cofnodion y cyfarfod ar gael ar gais.<br><br>**7. <u>UFA</u>**<br><br>Nodwyd y byddai Wayne Towell yn cymryd lle Malcolm Lawer ar yr Is-Grŵp DTRh. | **SB** |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** I’w drefnu. | |